Cerdded drwy Alberta
Pwy sy' fwya hurt te
Ti ne fi am adael yr hen wlad
Mae 'na swllt am bunt i gario
Awn fyth yn ôl i Gairo
Ni theimlwn donau'r tywod dan ein traed.

Cerdded drwy Kentucky
Anodd credi'n lwc I
Yno 'nes gyfarfod 'a hen ffrind
A fu yn geidwad y camelod
Llongau hen y tywod
Unwaith fu'n ymdroelli drwy yr Aifft.

Bei bei i'r hen Sahara, ddoi di fyth yn ôl
Pob hwyl I Alexandra, gorwedd yn dy gol
Does neb fel Ffatima I ddawnsio dawns y bol
Lleuad y dwyrain fel deigryn yn y nen.

Pwy fase'n credi
Fydde'n 'I yn troi yn ôl
Gadael yr America am byth
Wel 'fydd 'na groeso yn y Casba
A dawnsio fy Fatima
Smocio fy hen hwca gyda'r hwyr.